Cynhaliwyd cyfarfod o Gyngor Cymuned Talyllychau yn Ysgol Gynradd Talyllychau Nos Fawrth, 7 Chwefror 2023, am 7.30pm.
Roedd y canlynol yn bresennol: y Cynghorwyr Marged Bowen, Janine Roberts, John Williams, Aled Williams, Jane Morgan (yn gwneud swydd y Clerc), y Cynghorydd Sir Fiona Walters. Ymddiheuriadau: Rhys Williams.
Ni nodwyd unrhyw ddatganiadau o fuddiant.
Cytunwyd bod cofnodion y cyfarfod blaenorol yn gywir.
Materion yn codi.
Swydd wag y Clerc: Mae un person sydd â diddordeb wedi dweud nad yw cyfarfodydd ar nosweithiau Mawrth yn gyfleus. Y Clerc i gysylltu â'r unigolyn i weld a fyddai ganddo ddiddordeb pe bai'r dyddiad yn cael ei newid i ddydd Llun 1af bob mis.
Diffibriliwr. Cafwyd adroddiad ynghylch y diffibriliwr ar gyfer mis Chwefror gan Wyn Edwards. Mae Wyn Edwards wedi cynghori y bydd yn gorffen gyda'r gwaith hwn 'nawr ac mai hwn fydd ei adroddiad olaf. Mae'n hapus i nodi bod Emily Ashdown wedi gwirfoddoli i adrodd gydol y flwyddyn i ddod. Mae hefyd wedi rhestru materion i'w trafod. Bydd angen newid y padiau gan iddynt ddod i ben ar 28.12.2022. Mae angen tortsh ar gyfer y Diffibriliwr gyferbyn â'r Eglwys. Mae angen canllawiau gweinyddol ar gyfer Uned Ysgol Talyllychau. Mae'r pecynnau o fenig rwber yn eithaf hen a dylid prynu rhai newydd. Y Clerc i anfon e-bost yn diolch i Wyn am ei waith dros y flwyddyn ddiwethaf.
Byddai angen anfon e-bost cadarnhau at Emily yn diolch iddi am ymgymryd â'r gwaith. Cafwyd negeseuon e-bost yn cadarnhau bod pob un o'r tri diffibriliwr bellach wedi'u cofrestru ar y gylched. Gofynnwyd am badiau newydd a byddant yn cael eu gosod cyn gynted ag y deuant i law.
Y Clerc i gysylltu â Rhys Green i weld faint y byddai'n ei godi i gynnal yr Hyfforddiant Diffibriliwr a phryd y byddai ar gael.
Dŵr Cymru. Cynllun gosod pibellau arfaethedig yn Nhalyllychau trwy Gae'r Gymuned. Cafwyd neges e-bost yn dweud bod llwybr y brif bibell ddŵr wedi'i ddiweddaru ac felly ni fydd bellach yn cael ei osod ar dir sy'n eiddo i'r Cyngor Cymuned.
Y Cyfriflenni Banc Diweddaraf a Cheisiadau am Dâl. Y balans ar 28.12.2022 oedd £8,697.48. Y balans ar 27.01.2023 oedd £12,018.80. Mae hyn yn cynnwys taliad Praesept o £3,333.34 a ddaeth i law 29.12.2022. Anfoneb oddi wrth Gyngor Sir Gâr am osod llusernau newydd, £187.66. Cytunwyd i'w thalu. Anfoneb oddi wrth R & M Hardware am osod batris newydd yn y Diffibrilwyr, £87.00. Cytunwyd i'w thalu. Adnewyddu Yswiriant gan Zurich, £328.65. Cytunwyd i'w talu.
Cytunwyd y byddem yn rhoi'r rhoddion canlynol o dan Adran 137: Ambiwlans Awyr Cymru £400.00; *Y Lloffwr* £50.00; Clwb Cinio Talyllychau a Llansawel £100.00; Murlun yr Urdd £50.00; Trafodwyd hefyd lythyr oddi wrth Adran Llyn y Fan.
Roedd llythyr wedi dod i law gan Ysgol Talyllychau yn nodi bod y tâl i gynnal cyfarfodydd yn yr Ysgol wedi codi o £20.00 i £25.00. Bydd y ffi newydd yn berthnasol o fis Ionawr. Cytunwyd ein bod yn derbyn y tâl newydd o £25.00.
Gohebiaeth a ddaeth i law trwy'r post ac a anfonwyd ymlaen trwy e-bost.
Cafwyd rhybudd bod Cyfarfod Cyhoeddus wedi'i drefnu yn y White Hart, Llandeilo, ddydd Mercher 15 Chwefror am 7pm i drafod y peilonau arfaethedig trwy Ddyffryn Tywi.
Cafwyd gohebiaeth gan y Rheoleiddiwr Pensiynau ynghylch ailgofrestru ac ailddatgan.
Dyddiad ail-gofrestru 20 Ebrill 2023. Y dyddiad cau ar gyfer ailddatgan yw 19 Medi 2023.
Ateb a anfonwyd at lythyr a gafwyd gan Gyngor Sir Gâr ynghylch cysgodfannau bysiau – perchnogaeth a chyfrifoldebau cynnal a chadw. 1. Yn eiddo i Gyngor Sir Gâr – Cornel Bancelwydd. 2. Yn eiddo i Gyngor Sir Gâr – y tu allan i'r Ficerdy. 3. Yn eiddo i'r Cyngor Cymuned – Ochr Edwinsford Arms.
Enwebiadau i Bartïon Gardd Palas Buckingham – Ymateb erbyn 13 Chwefror. Anfonwyd y manylion ymlaen at Janine Roberts i'w cwblhau.

Coroni'r Brenin Siarl III ar 6 Mai 2023. Cafwyd neges e-bost gan Zurich ynghylch Atebolrwydd Cyhoeddus.
Cafwyd neges e-bost gan Gyngor Sir Gâr yn cynghori bod mater y Coed Peryglus neu Gwympedig a nodwyd ar 16.06.2022 bellach wedi'i drosglwyddo i'r Adran Priffyrdd.

Cynllunio. Dim
Llwybrau Cae'r Gymuned a datblygiadau yn y dyfodol. Cytunwyd trefnu cyfarfod ar y safle ym mis Ebrill. Unrhyw fater arall a dyddiad y cyfarfod nesaf.
Cafwyd Adroddiad Diweddaru gan y Cynghorydd Sir Fiona Walters. Er gwybodaeth – Rhif Ffôn Cyngor ar Bopeth – Gwasanaeth Am Ddim 01267 234488.
Nid oedd yna unrhyw fusnes arall, a daeth y cyfarfod i ben tua 9.40 pm.
Cynhelir y cyfarfod nesaf Nos Fawrth 7 Mawrth 2023 am 7.30 pm yn yr ysgol.